# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 29 Ionawr 2015**

Amser:
**13.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sulafa Thomas, x8669**
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
0300 200 6565
sulafa.thomas@Cynulliad.Cymru

## Agenda AC(4)2015(2)

### 1 Cyflwyniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol** (Tudalennau 1 - 3)

### 2 Gwybodaeth ddiweddar am Ddiogelwch - Eitem lafar

### 3 Strategaeth Rheoli Carbon - Casgliad a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol
(Tudalennau 4 - 15)

### 4 Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol (Ebrill - Rhagfyr 2014)
(Tudalennau 16 - 33)

### 5 Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (Gorffennaf-Rhagfyr 2014) (Tudalennau 34

- 85)

**6 Adolygiad o Effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad – y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu** (Tudalennau 86 - 91)

**7 Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg – 10 Tachwedd 2014** (Tudalennau 92 - 102)

**8 Unrhyw fater arall**

# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 15 Ionawr 2015** |
| Amser: | **09.00 – 10.15** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2015(1)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Angela Burns AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Datganiadau o fuddiant

**Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.**

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr.

## 2 Newid Cyfansoddiadol – Cyflwyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Yn y cyfarfod ar 17 Tachwedd, cytunodd y Comisiynwyr i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn llywio'r cytundeb trawsbleidiol Dydd Gŵyl Dewi disgwyliedig a fyddai'n amlinellu dyfodol setliad datganoli Cymru. Trafododd y Comisiwn gwmpas a chynnwys adroddiad drafft ar y mater hwn, yn ogystal â threfniadau ar gyfer rhannu'r adroddiad â rhanddeiliaid.

Cytunodd y Comisiwn y dylid datganoli materion yn ymwneud â maint y Cynulliad, a'i system etholiadol, i'r sefydliad ei hun, yn hytrach na bod San Steffan yn deddfu arnynt. Teimlai y dylid gwneud hyn cyn gynted â phosib. Trafododd y Comisiynwyr faint y Cynulliad hefyd, a goblygiadau sawl cynnydd gwahanol ym maint y Cynulliad, yn enwedig y goblygiadau ariannol.

Cytunodd y Comisiwn bod yn rhaid cynyddu nifer yr Aelodau etholedig yn y Cynulliad. Roedd ymresymiad y Comisiynwyr yn cael ei lywio gan eu dymuniad i roi cyfle realistig i Aelodau graffu ar bolisïau, gweinyddiaeth, gwariant a chynigion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mor gadarn ag y mae pobl Cymru yn ei haeddu. Teimlent fod canlyniadau ac effeithiau'r gwaith a wneir gan yr Aelodau yn arwyddocaol a'i bod yn bwysig canolbwyntio yn eu hadroddiad ar ymdrin ag anghenion y sefydliad. Roedd y Comisiwn yn cydnabod bod costau yn gysylltiedig â democratiaeth, a nodwyd bod y ffigurau yn y papur a gawsant yn dangos bod y gost, hyd yn oed gyda chynnydd yn nifer yr Aelodau, yn parhau'n ganran fach iawn o floc Cymru; gofynwyd am i hyn gael ei bwysleisio yn yr adroddiad.

Trafododd y Comisiynwyr y ffaith bod y disgwyliadau ar Aelodau heddiw, heb son am unrhyw estyniad i bwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad, yn gwneud yr achos am fwy o Aelodau yn un cryf. Teimlent y byddai angen iddynt ystyried sut i gynorthwyo Aelodau wrth ymgymryd â'u swyddi yn y cyfnod cyn cynyddu nifer yr Aelodau.

Cytunodd y Comisiwn y byddai'n cyhoeddi adroddiad yn egluro themâu eu trafodaethau, ac ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol, ac arweinwyr grwpiau, yn amgáu copi o'r adroddiad.  Teimlai'r Comisiynwyr ei bod yn bwysig canolbwyntio yn eu hadroddiad ar y ffeithiau a gwneud cyfraniad defnyddiol i'r ddadl gyfansoddiadol gyfredol.  Cytunwyd y byddai eu hadroddiad ar gael i Aelodau, y cyfryngau a'r cyhoedd.

## 3  Unrhyw fusnes arall

Rhoddodd y Comisiwn ei gymeradwyaeth ffurfiol i benodiadau'r ymgeiswyr llwyddiannus yn y ddwy gystadleuaeth recriwtio ar gyfer swyddi Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Iau 29 Ionawr yn un o'r cyfarfodydd rheolaidd sy'n canolbwyntio ar Berfformiad.  Bydd y Comisiwn yn ystyried Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Ebrill–Rhagfyr 2014, yr Adroddiad Blynyddol ar ein Strategaeth Reoli Carbon a'r Adroddiad Uchafbwyntiau diweddaraf.

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

CYNULLIAD – CYFYNGEDIG

**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

**AC(4)2014(2) Papur 4**

**Dyddiad:** 29 Ionawr 2015
**Amser:** 13:00 – 14:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw'r awdur a rhif cyswllt:** Claire Clancy, estyniad 8233

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n bapur cyfrinachol ac ni ddylid ei rannu'n ehangach. Pan fydd y Comisiwn yn cyfarfod i ystyried y papur, bydd y Comisiynwyr yn penderfynu a ddylai'r papur barhau'n gyfrinachol neu a ddylai gael ei gyhoeddi.*

# Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn

**Cynnwys**

**1.0** Rhagarweiniad ..... 4

**A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ..... 4**

**2.0** Adolygiad o Gofnod yTrafodion ..... 4

**3.0** Prosiect Cyfieithu Peirianyddol ..... 5

**4.0** Defnydd Aelodau o'r Gwasanaeth Ymchwil ..... 5

**5.0** Y Bwrdd Taliadau ..... 6

**6.0** Cefnogi Pwyllgorau ..... 7

**7.0** Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ..... 7

**8.0** Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r Aelodau a'u staff cymorth ..... 9

**9.0** Ymgysylltiad a gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE ..... 10

**B. Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru ..... 13**

**10.0** Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ..... 13

**11.0** Diwrnod Newyddion Hyperleol ..... 14

**12.0** Dylanwadu a pharatoi ar gyfer newid cyfansoddiadol ..... 15

**13.0** Cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad ..... 15

**14.0** Gweithgareddau allgymorth ..... 16

**15.0** Sioeau haf ..... 17

**16.0** Cynnwys y cyhoedd yng ngwaith y pwyllgorau ..... 18

**17.0 Addasiadau i'r Siambr / Prosiect Cefnogi Busnes y Cyfarfod Llawn ..... 19**

**18.0** Y Cyfryngau Cymdeithasol ..... 20

**19.0** Sylw i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau ..... 20

**20.0** Sylw i Bwyllgorau'r Cynulliad yn y Cyfryngau ..... 21

**21.0** Teithiau o amgylch y Senedd, ........ 22

**22.0** Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ........ 23

**C. Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth** ........ 24

**23.0** Llywodraethu Gwybodaeth ........ 24

**24.0** Capasiti a Chynllunio'r Gweithlu ........ 24

**25.0** Y Cynllun Prentisiaeth ........ 24

**26.0** Cydraddoldeb a hygyrchedd ........ 25

**27.0** Gwaith ar Ystâd y Cynulliad – Blaengynllun 10 Mlynedd ar gyfer Cynnal a Chadw ac Adnewyddu ........ 26

**28.0** Mentrau cynaliadwyedd ........ 28

**D. Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Ariannol** ........ 30

**29.0** Sefyllfa Ariannol 2014-15 ........ 30

**30.0** Y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb ........ 30

**31.0** Caffael ........ 31

**E. Rhyddid Gwybodaeth** ........ 33

**32.0** Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y cyfnod Gorffennaf-Rhagfyr 2014 **33**

mis Ionawr 2015

# Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn

## 1.0 Rhagarweiniad

**1.1** Mae'r adroddiad uchafbwyntiau yn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar, neu sy'n mynd rhagddo, i wneud cynnydd tuag at gyflawni nodau strategol y Comisiwn. Nod yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Comisiynwyr, er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau o ran goruchwylio a dwyn y rheolwyr i gyfrif. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a phrosiectau allweddol ers mis Mehefin 2014.

# A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

## 2.0 Adolygiad o Gofnod yTrafodion

**2.1** Mae adolygiad wedi bod ar y gweill i ystyried sut yr ydym yn cofnodi trafodion, gan gynnwys Cofnod y Trafodion a'r cwestiwn ehangach o sut y mae pobl yn cael ac yn defnyddio gwybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd yn y Cynulliad.

**2.2** Mae'r adolygiad yn:

a. ymchwilio a dod o hyd i i wahanol ffyrdd o weithio a defnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd a gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn y maes pwysig hwn o weithgarwch;

b. ystyried ar ba ffurf y dylid cofnodi trafodion er mwyn bodloni anghenion Aelodau a rhanddeiliaid; ac

c. asesu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r cynhyrchion hyn mewn gwahanol ffyrdd, i wneud gweithgareddau'r Cynulliad yn fwy tryloyw, agored a haws ymgysylltu â hwy mewn byd digidol.

**2.3** Roedd rhan gyntaf yr adolygiad yn canolbwyntio ar wneud y broses o gynhyrchu'r Cofnod yn fwy costeffeithiol ac rydym wedi bod yn

edrych yn agos ar y prosesau sydd ynghlwm â hyn, gan gynnwys gwneud defndydd effeithiol o nodiadau siarad yr Aelodau, sydd wedi'u paratoi, er mwyn lleihau amser trawsgrifio.

**2.4** Mae staff y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi wedi treialu ffyrdd gwahanol o weithio yn ystod tymor yr hydref er mwyn llywio canlyniad yr adolygiad. Mae'r rhain bellach yn cael eu dadansoddi.

**3.0 Prosiect Cyfieithu Peirianyddol**

**3.1** Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo'n barhaus y system Microsoft Translator. Mae'n ystyried ffyrdd o sicrhau y gall capasiti'r gwasanaeth ateb y galw cynyddol am wasanaethau dwyieithog.

**4.0 Defnydd Aelodau o'r Gwasanaeth Ymchwil**

*Gwneud gwybodaeth yn fwy diddorol*

**4.1** Treialodd y Gwasanaeth Ymchwil gyfres o ffeithluniau (*infographics)* mewn perthynas â chyllideb Llywodraeth Cymru yr hydref hwn. Y nod oedd rhoi darlun cyflym a hawdd ei ddeall o raddfa'r newidiadau cyffredinol o fewn cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru i Aelodau, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn gyffredinol. Roedd yr adborth a'r diddordeb gan yr Aelodau a'r cyhoedd yn wych. Ein ffeithlun o'r Setliad Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol a gafodd y defnydd mwyaf ar lif Twitter y Gwasanaeth Ymchwil, o ran trydariadau, aildrydar, hoffi a chael ei grybwyll mewn trydariadau pellach.

*Cyfarfodydd rhwng y Gwasanaeth Ymchwil a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad*

**4.2** Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cynnal dau gyfarfod 'Grŵp Gwella Busnes' gyda Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad trawsbleidiol. Nod y grŵp yw ein helpu i deilwra ein cefnogaeth i anghenion yr Aelodau a'u staff, sy'n newid. Roedd y cyfarfodydd yn ystyried ein hymagwedd tuag at gyhoeddiadau ymchwil rhagweithiol ee pa fath o gyhoeddiadau a thestunau y mae Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad

a'r Aelodau yn eu gweld yn ddefnyddiol – a phrofiad y cwsmer o gyflwyno ymholiadau. Daeth rhai syniadau defnyddiol i'r amlwg, fel sut y gallwn ei gwneud yn haws i ddarllenwyr gael gafael ar gyhoeddiadau newydd sy'n berthnasol iddynt hwy. Fel gwasanaeth, rydym yn gweld bod y cyfarfodydd yn ein helpu i ddeall sut mae Aelodau, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a grwpiau plaid yn defnyddio ac yn gweld ein gwasanaethau.

*Defnydd yr Aelodau o'r Gwasanaeth Ymchwil*

**4.3** Mae Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn parhau i wneud defnydd ardderchog o'r Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer ymholiadau ymchwil cyfrinachol, unigol. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2014, cafwyd ymholiadau gan 53 o Aelodau Cynulliad (88%); gwnaeth 49 ohonynt (82%) o leiaf ddau ymholiad; roedd 46 ohonynt (77%) wedi gwneud o leiaf dri ymholiad a 45 ohonynt (75%) wedi gwneud o leiaf bedwar ymholiad – ffigurau tebyg iawn i'r cyfnod blaenorol.

## 5.0 Y Bwrdd Taliadau

**5.1** Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Taliadau yn ystyried y pecyn llawn o daliadau ar gyfer Aelodau yn y Pumed Cynulliad. Yn ystod yr haf a'r hydref, ymgynghorodd y Bwrdd ar gynigion ar gyfer trefniadau pensiwn, newidiadau i faterion yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a lwfansau i Aelodau. Ym mis Tachwedd, ymgynghorodd y Bwrdd hefyd ar gynigion ar gyfer cyflogau Aelodau yn y Pumed Cynulliad, a ysgogodd ddiddordeb sylweddol gan y cyfryngau a'r cyhoedd. Cyn bo hir, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ymgynghoriad ar y Penderfyniad ar gyfer pumed blwyddyn y Pedwerydd Cynulliad a'r Penderfyniad gyfer y Pumed Cynulliad.

**5.2** Bydd y Bwrdd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ag Aelodau'r Cynulliad, Arweinwyr y Pleidiau a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad i glywed safbwyntiau gwleidyddol eang ar bob agwedd ar ei gylch gwaith.

Bydd hefyd yn sicrhau ei fod yn rhoi cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu â'r Bwrdd trwy wahanol ddulliau o gyfathrebu.

## 6.0 Cefnogi Pwyllgorau

**6.1** Ym mis Tachwedd, trafododd y Comisiynwyr y cynnydd o gymharu â'r adolygiad o gefnogaeth pwyllgorau. Mae uchafbwyntiau'r gwelliannau a gyflwynwyd yn cynnwys:

- darparu papurau yn fwy cyson ac amserol;
- sicrhau bod mwy o bapurau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- ymgysylltiad ehangach a dyfnach â phobl Cymru, yn enwedig pobl ifanc; a
- darparu rhaglen barhaus o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer Aelodau.

**6.2** Mae dau ddarn allweddol o waith ar y gweill ac i fod i gael eu cwblhau yn ystod y chwarter nesaf. Byddant yn sicrhau bod gwasanaethau'r Comisiwn yn darparu'r cymorth gorau posibl i Aelodau yn ystod gweddill y Pedwerydd Cynulliad. Mae'r meysydd hyn fel a ganlyn:

- defnyddio adnoddau ychwanegol dros dro i fynd i'r afael â llwyth gwaith craffu deddfwriaethol trwm; a
- chynnal cyfarfodydd gydag Aelodau unigol i adeiladu proffil o sut maent yn ymgymryd â gwaith pwyllgor ac felly'n llywio cynllun y gwasanaeth.

## 7.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

*Prosiect Trosglwyddo ar gyfer Gwasanaethau yn y Dyfodol*

**7.1** Cafodd y Prosiect Trosglwyddo ar gyfer Gwasanaethau yn y Dyfodol ei gwblhau ar amser ac o dan y gyllideb ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r holl drefniadau contract gydag Atos bellach wedi dod i ben, ac ar wahân i'r gwasanaeth teleffoni a rennir, a fydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2015, mae rhwydweithiau TGCh y Cynulliad a Llywodraeth Cymru bellach yn gwbl ar wahân. Gweithiodd y tîm yn agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau parhad llwyddiannus gwasanaethau TGCh y Siambr i Weinidogion Cymru yn dilyn gwahanu rhwydweithiau.

Cafodd y contract sy'n darparu cefnogaeth peiriannydd TGCh ar gyfer Swyddfeydd Etholaeth a gweithwyr cartref ei ddyfarnu i Antur Teifi, a dechreuodd ym mis Awst.

**7.2** Ers i ni gymryd rheolaeth a pherchnogaeth lawn o'n systemau, mae'r tîm wedi gwneud nifer sylweddol o newidiadau i ddiweddaru a symleiddio'r seilwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mudo copiau wrth gefn o'n data ar gyfer yr ystâd gyfan ar system newydd;
- cyflwyno arbedion cost sylweddol;
- ailgyflunio ac ailddosbarthu gweinyddion storio i gynyddu capasiti;
- gwneud y defnydd gorau o'n cyfarpar heb orfod prynu rhagor o weinyddion;
- symud systemau allweddol i galedwedd mwy newydd a gwydn a chael gwared ar hen offer a lleihau costau cynnal a chadw a phŵer; ac
- uwchraddio meddalwedd sy'n bwysig i'r busnes i'r fersiynau diweddaraf.

*Senedd.tv*

**7.3** Ym mis Medi, cafodd y gwasanaeth Senedd.tv newydd ei lansio. Mae'n caniatáu i ddefnyddwyr wylio, oedi ac ail-chwarae darllediadau byw ar nifer o ddyfeisiau, gan gynnwys tabledi a ffonau clyfar. Gall defnyddwyr hefyd ddewis clipiau o gyfarfodydd y gellir wedyn eu rhannu neu eu plannu ar wefannau eraill. Mae'r safle newydd yn cymryd ac yn diweddaru'n awtomatig yr holl wybodaeth am gyfarfodydd o System Rheoli Busnes y Cynulliad (ABMS), gan gynnwys, dyddiad, amser, eitemau agenda a phawb a oedd yn bresennol - rhywbeth a oedd yn gorfod cael ei fewnbynnu â llaw ar yr hen system.

**7.4** Rydym wedi gosod archif ddigidol newydd ar gyfer trafodion y Cynulliad, gan symud i ffwrdd o recordiadau sy'n seiliedig ar dâp-i ddull mwy gwydn ac eco-gyfeillgar o storio. Mae'r archif newydd yn cynnig mynediad ar-lein llawn i ffilm o ansawdd uchel ar gyfer staff

yr Uned Darlledu am y tro cyntaf, a gall y darlledwr chwarae ffilm yn ôl i bartneriaid darlledu ar unrhyw adeg, hyd yn oed pan fydd y cyfarfod yn fyw. O ganlyniad i weithredu'r system newydd, rydym wedi gallu ailgychwyn y gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog, mewn partneriaeth ag S4C a Chyngor Cymru i Bobl Fyddar. Mae hwn yn cael ei ddangos ar raglen 'Y Dydd yn y Cynulliad' ar ddydd Mawrth ac ar adran 'Mwy o'r Senedd' ar y wefan Senedd.tv newydd.

*Gwefan y Cynulliad*

**7.5** Cafodd gwefan y Cynulliad ei mudo'n llwyddiannus i lwyfan Sharepoint newydd ar ddechrau mis Medi. Cafodd dros 120,000 o dudalennau a 100,000 o ddogfennau eu symud i'r llwyfan newydd, er mwyn i'r wefan fod yn haws ei defnyddio ar ddyfeisiau clyfar ac er mwyn i ddefnyddwyr fedru chwilio drwyddi'n well.

*.wales/.cymru*

**7.6** Fel mabwysiadwr cynnar o'r enwau parth rhyngrwyd lefel uchaf newydd i Gymru, daeth y Cynulliad yn un o'r sefydliadau cyntaf i ddefnyddio cyfeiriadau gwefannau .wales / .cymru yn gynnar ym mis Hydref. Cafodd hyn ei ddilyn gan fabwysiadu'r cyfeiriadau parth newydd ar gyfer holl negeseuon e-bost y Cynulliad ym mis Rhagfyr.

## 8.0 Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r Aelodau a'u staff cymorth

**8.1** Rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr, bu'r Aelodau a'u Staff Cymorth mewn ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu gyda 15 Aelod newydd yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Manteisiodd yr Aelodau ar gyfanswm o 145 o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn ystod y cyfnod o chwe mis.

**8.2** Yn ystod yr un cyfnod cymerodd cyfanswm o 71 o Staff Cymorth newydd ran mewn rhyw fath o weithgaredd Datblygiad Proffesiynol

Parhaus, gyda chyfanswm o 258 o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cael eu cymryd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Gwybodaeth am y gyllideb i Bwyllgorau
- Craffu deddfwriaethol gyda Phwyllgorau
- Ymwybyddiaeth ofalgar i Aelodau
- Hyfforddiant cyfryngau i Aelodau
- Sesiwn friffio ar Refferendwm yr Alban
- Dyfarniad y Goruchaf Lys
- Ymyriadau Hunanladdiad
- Ysgrifennu'n Effeithiol
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Diploma Arweinyddiaeth Strategol
- Cysylltiadau effeithiol â'r cyfryngau
- Ysgrifennu areithiau
- Cymraeg

## 9.0 Ymgysylltiad a gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE

Enghreifftiau o weithgareddau Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau a chyfranogiad ACau yng nghynadleddau'r UE

**9.1** Aeth David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, i ymweld â Brwsel ar gyfer cyfarfodydd gydag Aelodau Cymreig o Senedd Ewrop, swyddogion yr UE, a chynrychiolwyr eraill sydd wedi'u lleoli ym Mrwsel.

**9.2** Mae Mick Antoniw AC wedi chwarae rhan weithredol wrth i Bwyllgor y Rhanbarthau ymateb i'r argyfwng yn Wcráin. Mae wedi cael ei enwebu fel aelod newydd o Bwyllgor CORLEAP y Rhanbarthau (fforwm gwleidyddol Partneriaeth Dwyrain Ewrop).

**9.3** Siaradodd Rhodri Glyn Thomas AC mewn cynhadledd ar rôl Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) wrth gefnogi buddsoddiadau tiriogaethol ar draws yr UE. Cymerodd ran hefyd mewn ymweliad lefel uchel grŵp o

wleidyddion o Bwyllgor y Rhanbarthau â Banc Buddsoddi Ewrop yn Lwcsembwrg ym mis Tachwedd. Mae hyn i gyd yn ymwneud â gwaith Rhodri Glyn fel rapporteur Pwyllgor y Rhanbarthau yn ystod 2013 ar ddau adroddiad yn edrych ar synergeddau cyllideb a synergeddau rhwng cyllid cyhoeddus a chyllid phreifat, gan gynnwys rôl Banc Buddsoddi Ewrop.

**9.4** Bu Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC hefyd mewn nifer o gyfarfodydd pwyllgor a chyfarfodydd llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel yn ystod yr hydref.

**9.5** Ym mis Ionawr eleni, bydd David Melding AC, yn siarad yn un o gynadleddau'r UE yn Siambr y Dirprwyon yn Senedd yr Eidal yn Rhufain. Mae'r gynhadledd yn edrych ar rôl Seneddau Cenedlaethol yn yr UE a bydd David yn siarad am rôl Seneddau is-Genedlaethol, gan gyflwyno profiadau'r Cynulliad o faterion yr UE a chyfeirio at adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

<u>Gwaith yn ymwneud â'r UE yn y Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn</u>

**9.6** Mae ystod eang o waith sy'n gysylltiedig â'r UE wedi cael sylw gan nifer o Bwyllgorau'r Cynulliad, ac yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r manylion i'w cael yn rhifyn y gaeaf o "Materion Ewrop" sydd ynghlwm wrth yr Adroddiad Uchafbwyntiau hwn, yn atodiad 1.

<u>Allbynnau rhagweithiol yr UE</u>

**9.7** Mae Swyddfa'r UE a'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cynhoeddi amryw gyhoeddiadau rhagweithiol i gefnogi gwaith yr Aelodau ar faterion yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys Diweddariad Wythnosol yr UE, Materion Ewrop, y llif Twitter @SeneddEurope, a Diweddariadau Polisi yr UE a'r blog ymchwil Pigion, gan gynnwys cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Cronfa Buddsoddi Strategol Ewropeaidd, y trafodaethau TTIP, cefnogaeth bosibl yr UE yn dilyn cau gwaith Murco yn Aberdaugleddau, a'r rheoliad a fabwysiadwyd yn ddiweddar ar rywogaethau goresgynnol estron yr UE.

**9.8** Cynhyrchodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad, ar y cyd â chydweithwyr o'r llyfrgelloedd / gwasanaethau ymchwil yn Senedd Iwerddon, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, bapur wedi'i ddiweddaru ar weithredu diwygiadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a fabwysiadwyd yn 2013. Cafodd y papur hwn ei roi ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Cyfathrebu PAC 2014 gan y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cael ei gynnal ym Mrwsel ar 29 Ionawr at 2015.

**9.9** Rhwng 26 a 28 Ionawr bydd dirprwyaeth o 15 o swyddogion o'r Cynulliad, o'r timau Gwasanaeth Ymchwil, y Gwasanaeth Cyfreithiol, Pwyllgorau a Gwasanaeth y Siambr, y Swyddfa Breifat a'r Adran Gyfathrebu, yn ymweld â Brwsel ar gyfer rhaglen ymsefydlu / hyfforddi sydd wedi ei threfnu a'i hariannu (yn bennaf) gan y Comisiwn Ewropeaidd.

# B. Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

## 10.0 Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus

**10.1** Fel rhan o'r ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, ysgrifennodd y Llywydd at Arweinwyr y Pleidiau yn gofyn i'w pleidiau ystyried camau i sicrhau bod mwy o fenywod yn sefyll yn etholiad 2016. Yn dilyn eu hymateb cadarnhaol, gwahoddodd y Llywydd hwy i enwebu cynrychiolydd i fod yn aelod o Glymblaid Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad. Mae'r Glymblaid wedi cyfarfod amryw weithiau gyda'r nod o geisio cyfrannu'r arfer gorau, yn enwedig o seneddau eraill o bob cwr o'r byd, er mwyn cynyddu cynrychiolaeth seneddol menywod. Caiff adroddiad y Glymblaid ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2015.

*Lansiad swyddogol cynllun Mentora a Datblygu #POWiPL*

**10.2** Mae Cynllun Mentora a Datblygu'r Llywydd yn rhaglen sy'n cefnogi menywod sydd am gymryd cam i mewn i fywyd cyhoeddus. Mae menywod wedi eu tangynrychioli'n sylweddol mewn bywyd cyhoeddus, ac felly mae gan y cynllun hwn swyddogaeth bwysig. Bydd yn helpu i sicrhau bod menywod yn datblygu'n effeithiol ac yn mynd ymlaen i swyddi sydd yn aml yn cael dylanwad uniongyrchol ar fywydau pobl ledled Cymru.

**10.3** Cynlluniodd Chwarae Teg ac Ysgol Fusnes Caerdydd gyflwyniad a fformat y cynllun ar ran y Cynulliad a arweiniodd at ei lansiad swyddogol ar 9 Hydref 2014.

**10.4** Mae pedwar ar ddeg o fentoreion bellach wedi cael eu paru gyda mentoriaid cymeradwy. Byddant yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn i'r mentoreion ennill cefnogaeth, anogaeth a phrofiad i wella eu datblygiad personol a'u hyder dros y 18 mis nesaf. Bydd mentoreion hefyd yn cael cyfle i gysgodi rhai mewn swyddi rheoli uwch a bywyd

cyhoeddus mewn amrywiaeth o sectorau yng Nghymru, fel Aelodau'r Cynulliad a Phrif Weithredwyr sefydliadau.

*Lansio'r Datganiad ar y Cyd*

**10.5** Ailddatganodd y Cynulliad, Gweinidogion Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eu hymrwymiad ar y cyd i gynyddu nifer y menywod mewn swyddi cyhoeddus yng Nghymru drwy lofnodi datganiad ar y cyd yn y Senedd ar 25 Mehefin 2014.

**10.6** Mae'r tri sefydliad wedi gweithredu rhaglenni strategol i fynd i'r afael â'r prinder menywod mewn swyddi cyhoeddus yng Nghymru.

**11.0 Diwrnod Newyddion Hyperleol**

**11.1** Roedd y digwyddiad hwn, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chanolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd, yn rhan o ymgyrch barhaus y Llywydd i fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd a achosir gan y bwlch o ran y sylw a gaiff bywyd gwleidyddol Cymru yn y cyfryngau.

**11.2** Rhoddodd y digwyddiad fynediad i newyddiadurwyr hyperleol a chymunedol i'r Senedd i'w galluogi i adrodd am waith y Cynulliad sy'n berthnasol i'w hardal a'u cynulleidfaoedd. Trefnwyd cynadleddau i'r wasg gan roi cyfle i'r pedair plaid annerch y newyddiadurwyr ac ymateb i'w cwestiynau.

**11.3** Yr Athro Richard Sambrook, Cyfarwyddwr y Ganolfan Newyddiaduraeth a chyn-Gyfarwyddwr Global News y BBC, a oedd yn gweithredu fel golygydd newyddion ar y diwrnod gan gynnig cyngor ac arweiniad i'r newyddiadurwyr hyperleol a chymunedol.

**11.4** Gellir gweld y straeon newyddion a'r cyfweliadau a gynhyrchwyd ar y diwrnod yn y ddolen isod:

http://democraticdeficitwales.tumblr.com/

**11.5** Mae'r Cynulliad bellach yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddrafftio adroddiad sy'n amlinellu prif ganfyddiadau'r dydd a rhai o'r camau y gellid eu cymryd i gefnogi newyddiadurwyr hyperleol a

chymunedol wrth adrodd am waith y Cynulliad. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad yn gynnar yn 2015.

## 12.0 Dylanwadu a pharatoi ar gyfer newid cyfansoddiadol

**12.1** Mae'r Llywydd wedi parhau i hyrwyddo ei thair blaenoriaeth ar gyfer newid cyfansoddiadol: capasiti, sofraniaeth a phwerau neilltuedig. Cyfarfu ag Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru am y tro cyntaf ym mis Tachwedd, a chytunodd y ddau i gyfarfod yn rheolaidd yn y dyfodol. Yn ogystal â hyn, maent wedi gohebu â'i gilydd ar amrywiaeth o faterion cyfansoddiadol.

Rhoddodd y Llywydd (ac arweinwyr y pedair plaid) dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Seneddol ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol pan gynhaliodd y pwyllgor gyfarfod yn y Senedd ar 4 Rhagfyr 2014.

## 13.0 Cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad

**13.1** Ers mis Medi, rydym wedi darparu 181 o sesiynau dysgu, gan gyfarfod â **5,839** o bobl ifanc. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad Hawl i Holi yng Ngogledd Cymru. Mae tabl yn manylu ar rai o'r uchafbwyntiau yn y maes hwn yn Atodiad A.

**13.2** Mae gwybodaeth am sut y mae pobl ifanc yn cymryd rhan gynyddol ym Musnes y Cynulliad bellach yn cael ei hyrwyddo ar www.dygynulliad.org , gan gynnwys Twitter a Facebook.

**13.3** Ym mis Hydref, ymunodd gweithiwr ieuenctid cymwysedig â'r tîm i ddatblygu ein gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru. Mae nifer o gyfarfodydd gyda sefydliadau a grwpiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc y tu allan i'r 'profiad ystafell ddosbarth' wedi cael eu cynnal. Ym mis Rhagfyr, cynhaliwyd dau weithdy gyda'r myfyrwyr BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

**13.4** Ym mis Tachwedd, cafodd sgwrs genedlaethol ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ei lansio gan y Llywydd. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn

parhau tan 2 Mehefin 2015, ac yna byddwn yn dadansoddi'r canlyniadau a'u cyflwyno ar gyfer trafodaeth mewn digwyddiad Diwrnod Ieuenctid yn y Senedd ym mis Gorffennaf.

## 14.0 Gweithgareddau allgymorth

**14.1** Rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr bu'r tîm Cyfathrebu yn gweithio gyda'r grwpiau a'r sefydliadau canlynol, gan gyflwyno gweithdai i godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am y Cynulliad a'i waith:

| Grwpiau Cymunedau yn Gyntaf | Cadwyn | Fforymau Anabledd |
|---|---|---|
| Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth | YMCA | Age Cymru |
| Pop Up Talent | Grwpiau mynediad i bobl anabl | U3A |
| Y Sgowtiaid | Kim Inspire | Cymdeithas Strôc Cymru |
| Rhwydwaith Cyfranogaeth Cymru Gyfan | Rhwydwaith Fforwm Ieuenctid | Grŵp y Prif Weithwyr Ieuenctid |
| TAG - Rhwydwaith Prifysgol Cymru o Waith Ieuenctid BA / MA | Agored Cymru | Plant yng Nghymru |
| Youth Cymru | ISSA Cymru- Rhaglen dalen newydd gan weithio gyda chyn-droseddwyr Mwslimaidd | Sylfaen ar gyfer Addysg Ffoaduriaid (Fred) ltd |

| | | |
|---|---|---|
| | a Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | |
| Girl Guiding | Paul Glaze o CWVYS | Jason Nancurvis o Working on Wheels |
| URDD | Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru | Yr Eisteddfod Genedlaethol |
| National Theatre Wales | Canolfan Llywodraethiant Cymru | Cymdeithas Hansard |
| Prifysgol Abertawe | Chwaraeon Cymru | Llywodraeth Cymru |

## 15.0 Sioeau haf

**15.1** Yn 2014 buom yn ymweld â 12 o sioeau cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru ac yn siarad â bron i 10,000 o aelodau o'r cyhoedd. Fe wnaethom ddatblygu'n arbennig yr hyn sydd gennym i'w gynnig yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru. Cawsom strwythurau mwy amlwg a pharhaol, ac fe wnaethom barhau i noddi Pabell y Cymdeithasau ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol.

**15.2** Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r rhaglen ganlynol o ddigwyddiadau sydd wedi codi ymwybyddiaeth o fusnes y Cynulliad a mentrau amrywiol.

*Sioe Frenhinol Cymru*

**15.3** Yn Sioe Frenhinol Cymru fe wnaethom weithio gyda'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ddarparu derbyniad ar gyfer rhanddeiliaid y Pwyllgor i lansio'r ymgynghoriad ar Fil Cenedlaethau'r Dyfodol.

*Yr Eisteddfod Genedlaethol*

**15.4** Mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, cyflwynwyd y digwyddiad canlynol - *Can mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf – Cofio, dysgu, deall, a galaru*. Defnyddiwyd y digwyddiad hwn yn llwyfan i lansio ein rhaglen i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

**15.5** *Menywod yn y Celfyddydau* – Digwyddiad ar ffurf trafodaeth banel a oedd yn trafod rôl menywod mewn swyddi uwch yn sector y celfyddydau.

**15.6** Mewn partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru cyflwynwyd y digwyddiad canlynol - *Carchar Wrecsam – syniad da?* Roedd y digwyddiad hwn yn trafod manteision ac anfanteision y carchar mawr arfaethedig yn Wrecsam.

**15.7** Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, S4C a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru, cyflwynwyd *Yr Gymraeg mewn Oes Ddigidol*, a oedd yn trafod dyfodol y Gymraeg yn yr hinsawdd dechnolegol sydd ar y gorwel.

**15.8** Gellir gweld rhestr o ddigwyddiadau mawr eraill a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn yn Atodiad B.

**16.0 Cynnwys y cyhoedd yng ngwaith y pwyllgorau**

**16.1** Mae nifer o'r gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn cefnogi gwaith y pwyllgorau. Nod hynny oedd cael amrywiaeth ehangach o bobl i ywmenud â busnes y Cynulliad. Dyma rai enghreifftiau:

- Creu, hyrwyddo a chrynhoi arolwg ar Ailgylchu fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Clywsom gan 3,252 o bobl, gan gynnwys 2,377 o blant a phobl ifanc.
- Bu aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymweld â phrosiectau fel Prosiect Warws Wrecsam, Dan 24/7 yng Ngogledd Cymru, DrugAid a Chlwb Ieuenctid Forsythia ym Merthyr fel rhan o ymchwiliad y pwyllgor i Sylweddau Seicoweithredol Newydd. Cafodd yr ymweliadau hyn eu dilyn

gan ddigwyddiadau gyda staff rheng flaen yn Wrecsam a Merthyr Tudful.

- Gofynnodd arolwg yn ystod yr haf am farn pobl ifanc am y cwricwlwm a chymwysterau. Cymerodd dros 1,000 o bobl ifanc ran. Cafodd y data ei ddefnyddio fel rhan o Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Helpu Pobl Ifanc i gael Gwaith. Cafodd y data hefyd ei anfon at yr Athro Donaldson gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i lywio Adolygiadau Llywodraeth Cymru o Asesu a'r Cwricwlwm.

  Dywedodd yr Athro Donaldson: *"Rwy'n ddiolchgar iawn i'r pwyllgor am ddod â hwn i fy sylw ac am rannu gyda mi ganfyddiadau eich arolwg diweddar. Yn sicr bydd o ddiddordeb mawr wrth imi lunio fy argymhellion i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau".*

  Ffilmiodd y tîm hefyd bobl ifanc o wahanol rannau o Gymru ar gyfer yr ymchwiliad. Cafodd y fideos hyn eu golygu yn un fideo a ddangoswyd i'r Pwyllgor mewn cyfarfod pwyllgor cyhoeddus cyn sesiwn graffu gyda'r Dirprwy Weinidog.

- Trefnwyd digwyddiad i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fel rhan o'i ymchwiliad i Ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad. Hwn oedd y tro cyntaf i ddigwyddiad pwyllgor gael achrediad Datblygiad Proffesiynol Parhaus, sy'n golygu bod y rhai a oedd yn bresennol nid yn unig wedi gallu cyfrannu at yr ymchwiliad drwy gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp gydag Aelodau, ond hefyd wedi cael pwyntiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus am gymryd rhan.

- Fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (CELG) i Dlodi, trefnwyd sesiynau ledled Cymru lle roedd yr Aelodau'n gallu ymweld â phrosiectau fel Remploy, RNIB a'r prosiect Oasis i drafod materion gyda defnyddwyr gwasanaeth.

## 17.0 Addasiadau i'r Siambr / Prosiect Cefnogi Busnes y Cyfarfod Llawn

**17.1** Mae'r cynlluniau a gymeradwyodd y Comisiwn yn cynnwys cynllun desg diwygiedig, TG newydd, sefydlog a datblygu meddalwedd fewnol yn lle'r feddalwedd bresennol yn y Siambr.

**17.2** Cafodd desg ffug maint llawn ei chreu er mwyn i'r Aelodau weld y cynllun desg arfaethedig a rhoi adborth. Cafwyd llawer o adborth adeiladol, sydd bellach wedi'i ddefnyddio i fireinio'r cynllun desg fel ei fod yn bodloni anghenion yr Aelodau.

**17.3** Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd i ddylunio ac adeiladu'r feddalwedd a fydd yn cael ei defnyddio yn ystod y Cyfarfod Llawn. Mae'r broses o gasglu gofynion a phrofi'r feddalwedd wedi bod yn mynd rhagddi'n dda a bydd y gwaith yn parhau trwy'r flwyddyn. Byddwn yn ymgynghori ag Aelodau ar y feddalwedd yn ystod rhan gyntaf 2015.

## 18.0 Y Cyfryngau Cymdeithasol

**18.1** Cyflawnwyd rhai cerrig milltir pwysig yn ystod y cyfnod hwn. Bellach, mae dros 60,000 o ddefnyddwyr wedi gwylio darn o fideo ar ein sianel YouTube ers 2009, tra bod rhagor o gyfrifon Twitter wedi cael eu lansio i hyrwyddo darnau penodol o waith yn y Cynulliad. Y diweddaraf yw @SeneddOutreach / @SeneddAllgym. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad C.

## 19.0 Sylw i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau

**19.1** Mae'r cyfryngau wedi canolbwyntio ar nifer o brosiectau strategol allweddol ers mis Gorffennaf sydd wedi denu sylw da yn y cyfryngau:

*Ymgysylltu â Phobl Ifanc*

**19.2** Cafwyd sylw eang yn y cyfryngau i lansiad y Siarter Ieuenctid ym mis Gorffennaf, gan gynnwys darnau traethawd gan y Llywydd yn y Western Mail a'r Daily Post.

**19.3** Dilynwyd hyn ym mis Tachwedd gan sylw eang i lansiad y sgwrs ynghylch Pleidleisiau@16, gan gynnwys cyfweliadau gyda'r Llywydd ar BBC Cymru, ITV Cymru a Radio Heart. Cynhwysodd y Western Mail a'r

Daily Post unwaith eto ddarnau traethawd gan y Llywydd yn ogystal â sylw mewn teitlau wythnosol llai gan gynnwys Golwg.

*Newid cyfansoddiadol*

**19.4** Ffocws allweddol ar gyfer y tîm cyfryngau oedd codi'r proffil yn y cyfryngau o safbwynt y Llywydd yn y ddadl barhaus ynghylch trefniadau cyfansoddiadol yn y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys gwaith traethawd ar draws nifer o lwyfannau, gan gynnwys y Western Mail, y Daily Post a Click on Wales y Sefydliad Materion Cymreig. Roedd hyn yn cynnwys gwaith yn ystod y cyfnod cyn refferendwm yr Alban a'r ddadl a ddilynodd hynny.

**19.5** Cafodd negeseuon craidd y Llywydd am fwy o gapasiti, sofraniaeth a phwerau neilltuedig eu hyrwyddo ar bob cyfle posibl yn ystod y ddadl barhaus am ddyfodol cyfansoddiadol Prydain. Er enghraifft, fe wnaethom gyhoeddi datganiad gan y Llywydd yn dilyn cyhoeddi adroddiad Comisiwn Smith ac mae'r negeseuon craidd hynny wedi ffurfio rhan ganolog o'r sylw yn y cyfryngau ar draws ystod o gyfryngau yng Nghymru, a thu hwnt, gan gynnwys cyfweliad ar ddarlledwr y wladwriaeth yng Ngwlad yr Iâ.

**19.6** Rhoddwyd sylw helaeth hefyd i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ar ystâd y Cynulliad yn ogystal ag ymweliad y Llywydd â Fflandrys; targedau allyriadau'r Cynulliad; a Chystadleuwyr Gemau'r Gymanwlad yn dod adref.

## 20.0 Sylw i Bwyllgorau'r Cynulliad yn y Cyfryngau


**20.1** Mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi denu sylw da yn y cyfryngau, gyda chryn sylw'n cael ei roi i nifer o adroddiadau. Dyma enghreifftiau:


| Mis | Disgrifiad: | Pwnc o dan sylw |
|---|---|---|
| Hydref | Cyflwyno deiseb i'r Pwyllgor Deisebau yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen â'r gwaharddiad arfaethedig ar y defnydd o e-sigaréts mewn | *Western Mail* a'r *South Wales Argus* |

| Mis | Disgrifiad: | Pwnc o dan sylw |
|---|---|---|
| | mannau cyhoeddus. | |
| | Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i sut y gallai'r Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau niweidio'r diwydiant carafannau yng Nghymru. | *South Wales Argus, North Wales Pioneer, North Wales Chronicle, Rhyl Journal, Denbighshire Free Press* a *News North Wales* |
| Tachwedd | Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Nghymru | *Newyddion BBC Cymru, Newyddion ITV Cymru, Newyddion S4C* ac yn *WalesOnline* a'r *South Wales Echo* |
| Rhagfyr | Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar berfformiad mewnfuddsoddi yng Nghymru | *Newyddion BBC Cymru, Newyddion S4C a rhaglen Sunday Politics BBC Cymru* |

## 21.0 Teithiau o amgylch y Senedd,

**21.1** Mae teithiau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw o amgylch y Senedd yn parhau i fod yn boblogaidd iawn fel mae'r graffiau isod yn dangos (mae'r ffigurau ar gyfer 2014/2015 am 8 mis). Mae'r adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn ac mae'n dangos bod grwpiau'n gadael gyda llawer gwell dealltwriaeth o'r Cynulliad, y ffordd y mae'n gweithio a'r testunau cyfredol sy'n destun ymgynghoriad.




## 22.0 Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol

**22.1** Yn Atodiad D mae rhestr o'r prif ddigwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol.

# C. Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth

## 23.0 Llywodraethu Gwybodaeth

**23.1** Nododd adroddiad archwilio mewnol ym mis Mehefin sgôr boddhaol a nododd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar godi ymwybyddiaeth, ar draws y Cynulliad, o bwysigrwydd a chyfrifoldeb am lywodraethu gwybodaeth yn effeithiol.

**23.2** Cyflwynwyd cynllun marciau diogelwch symlach; mae gwaith yn parhau i gryfhau proses y gofrestr asedau gwybodaeth fel dull o reoli gwybodaeth; ac mae ymarfer hunanasesu wedi'i gynnal gan y Perchnogion Asedau Gwybodaeth.

**23.3** Mae'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth wedi cyflwyno nifer o sesiynau ymwybyddiaeth mewn swyddfeydd etholaethol i gynorthwyo Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â diogelu data a rheoli gwybodaeth a bydd y rhain yn parhau i gael eu cynnig yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael eu cynorthwyo gydag ymholiadau diogelu data a bydd dogfen ganllawiau diogelu data newydd yn cael ei rhyddhau yn gynnar yn 2015. Yn olaf, bydd fframwaith polisi llywodraethu gwybodaeth syml a hawdd ei ddefnyddio hefyd yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2015.

## 24.0 Capasiti a Chynllunio'r Gweithlu

**24.1** Mae'r Bwrdd Rheoli wedi newid ei ddull o Gynllunio Capasiti er mwyn gwella ein gallu i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol, ac ar yr un pryd rheoli ein hadnoddau cyfyngedig yn effeithiol.

## 25.0 Y Cynllun Prentisiaeth

**25.1** Mae Rhaglen Prentisiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn rhedeg am ddwy flynedd. Cafodd pedwar prentis eu recriwtio yn ystod y flwyddyn gyntaf a chwe phrentis arall eu recriwtio ar gyfer 2013-14. Mae'r prentisiaid yn cael eu cyflogi mewn gwahanol dimau ar draws y Cynulliad, gan gynnwys ein swyddfa yng Ngogledd Cymru.

**25.2** Ym mis Hydref 2014 cafodd y Cynulliad ei roi ar y rhestr fer ar gyfer rownd derfynol Gwobrau Prentisiaeth Blynyddol mawreddog Cymru. Mae'r gwobrau'n cydnabod cyflogwyr sy'n ymrwymo i ddatblygu eu gweithlu drwy brentisiaethau.

**25.3** Er na wnaethom ennill y wobr, roeddem yn falch iawn o gael ein henwebu a byddwn yn defnyddio'r dysgu er mwyn helpu i wella cynlluniau Prentisiaeth yn y dyfodol. Mae ein profiad yn ein helpu i ddatblygu rhaglen brentisiaeth i Aelodau, sydd i fod i gael ei lansio erbyn y Pumed Cynulliad.

## 26.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd

*Cydnabyddiaeth allanol*

**26.1** Mae'r Cynulliad wedi derbyn **Gwobr Mynediad y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth**, sy'n dangos ein hymrwymiad i fod yn lleoliad hygyrch i ymwelwyr ar y sbectrwm awtistiaeth.

**26.2** Cawsom hefyd ein rhoi ar y rhestr fer ar gyfer **Gwobr Rhagoriaeth mewn Cydraddoldeb Diverse Cymru** am y gwaith Asesu Effaith Cydraddoldeb a wnaed gan y Bwrdd Taliadau.

*Digwyddiadau a Gweithgareddau*

**26.3** Ym mis Mehefin, aethom ati i godi ymwybyddiaeth am wahanol faterion cydraddoldeb a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i staff yn ystod **Wythnos Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, a fu'n trafod y realiti o fod yn ffoadur yng Nghymru, a Heddlu De Cymru a fu'n trafod meithrin ymddiriedaeth a gweithio gyda gwahanol gymunedau.

**26.4** Ym mis Medi, ailgyflwynwyd **Iaith Arwyddion Prydain ar y Cwestiynau i'r Prif Weinidog**. Bellach, mae fersiwn Iaith Arwyddion Prydain o'r Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar gael i wylwyr yn ddiweddarach yr un diwrnod ar S4C, a chaiff ei archifo ar ein sianel YouTube.

**26.5** Ym mis Hydref, cynhaliodd ein rhwydwaith staff Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a Rhwydwaith Staff Lleiafrifoedd Ethnig

Llywodraeth Cymru ddigwyddiad ar y cyd i ddathlu **Mis Hanes Pobl Dduon**. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar ddathlu ac arddangos cyfraniad staff Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o fewn Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.

**26.6** Er mwyn codi ymwybyddiaeth o wythnos gwrth-fwlio (17-21 Tachwedd 2014), cymerodd contractwyr, Staff y Comisiwn, 18 Aelod Cynulliad a'r Bwrdd Rheoli ran yn yr ymgyrch **Ei Glywed. Ei Atal. Peidiwch â sefyll o'r neilltu** drwy lofnodi addewid i ymrwymo i herio bwlio mewn ymddygiad ac iaith.

*Cefnogi ein staff Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a chynyddu cynrychiolaeth grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu*

**26.7** Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, creu gwell dealltwriaeth o waith y Cynulliad a hyrwyddo'r Cynulliad fel cyflogwr o ddewis, mae ein Cydlynydd Cynllun Gweithredu BME wedi mynychu ffeiriau swyddi a digwyddiadau recriwtio, darparu hyfforddiant a chymorth wedi'i dargedu i ymgeiswyr posibl am swyddi o blith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, rhwydweithio gyda dros 20 o sefydliadau amrywiol a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol fel Mela a Diweddglo Mis Hanes Pobl Dduon.

**26.8** Rydym yn treialu'r Pecyn Cymorth **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)**. Mae'r Tîm Cydraddoldeb wedi rhannu pecyn cymorth a chanllawiau EIA gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod EIA yn cael ei ymgorffori yn natblygiad pob polisi a phrosiect.

**26.9** Ym mis Awst cynhaliodd ein Archwiliwr Mewnol **Archwiliad Cydraddoldeb** i ystyried pa mor ddigonol ac effeithiol yw trefniadau'r Cynulliad ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nododd yr archwiliad nifer o feysydd lle mae'r Cynulliad yn arddangos arfer da a rhai meysydd i'w gwella; ar y cyfan roedd yn rhoi gradd boddhaol inni.

## 27.0 Gwaith ar Ystâd y Cynulliad – Blaengynllun 10 Mlynedd ar gyfer Cynnal a Chadw ac Adnewyddu

**27.1** Fel y nodwyd yn Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-2016, rydym wedi datblygu rhaglen dymor hir (dreigl) i flaenoriaethu'r buddsoddiadau yn yr ystâd. Cymeradwywyd y rhaglen gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau. Bydd y cynllun yn galluogi'r Comisiwn i sicrhau bod ein hystâd yn parhau i fod yn addas at y diben, yn adlewyrchu sefyllfa'r Cynulliad yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac yn rhoi lle canolog i'r Senedd a'r Pierhead ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae'r prosiectau canlynol wedi cael eu cwblhau yn ystod y chwe mis diwethaf yn adeiladau Tŷ Hywel:

*Adnewyddu'r toiledau*

**27.2** Gan nad oedd toiledau Tŷ Hywel wedi'u hadnewyddu ers adeiladu'r adeilad yn 1992, rydym wedi eu hadnewyddu gan gynnwys gwella'r plymwaith a'r pibellau. Mae'r gwaith adnewyddu hefyd wedi sicrhau gwelliannau cynaliadwy, gan gynnwys goleuadau LED, wrinalau di-ddŵr, synwyryddion fflysio, tapiau a dosbarthwyr sebon. Rhai o'r gwelliannau eraill oedd cynyddu maint ciwbiclau os oedd lle i wneud hynny. Cafwyd cryn dipyn o adborth cadarnhaol am y gwelliannau hyn i'n cyfleusterau.

*Adnewyddu'r grisiau*

**27.3** Nid oedd y grisiau ychwaith wedi'u hadnewyddu ers adeiladu'r adeilad felly maent wedi'u hailaddurno a'u hail-garpedu. Mae goleuadau LED ynni isel wedi'u gosod i gefnogi ein hamcanion cynaliadwyedd.

*Adnewyddu Ystafelloedd Paned*

**27.4** Adnewyddwyd yr ystafelloedd paned yn ardal swyddfeydd yr Aelodau Cynulliad. Gwnaed hyn yn ystod toriad yr haf i leihau aflonyddwch. Croesawyd y newidiadau gan yr Aelodau a'u staff.

*Dodrefn newydd ar gyfer Parlwr Te yr Aelodau*

**27.5** Mewn ymateb i adborth gan y Comisiynwyr a'r Aelodau, darparwyd byrddau a seddau ychwanegol ym Mharlwr Te yr Aelodau yn ystod toriad yr haf, er mwyn darparu mwy o le Aelodau sy'n dymuno prynu bwyd o gownter bwyd poeth y prif fwyty eistedd wrth y byrddau. Yn

ystod yr haf, manteisiwyd ar y cyfle i newid y llawr, a oedd wedi'i ddifrodi a'i staenio. Mae'r cyfleusterau ychwanegol hyn wedi'u croesawu gan yr Aelodau ac maent yn cael eu defnyddio'n helaeth.

*Lle digwyddiadau yn y Neuadd*

**27.6** Yn dilyn adborth gan y Comisiynwyr am y lle ar oedd ar gael ar gyfer digwyddiadau yn ystod adegau o alw brig, cafodd sgrin a drysau gwydr eu gosod yn ardal y Neuadd ger derbynfa Tŷ Hywel. Gobeithiwn y bydd yr Aelodau'n croesawu'r lle ychwanegol hwn ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu noddi gan yr Aelodau.

*Peiriant arian*

**27.7** Gyda chefnogaeth y Swyddfa Bost fewnol, gosodwyd peiriant arian ar goridor y llawr cyntaf ym mis Medi. Bu'r peiriant arian yn gyfleuster ychwanegol gwerthfawr iawn ac mae'n cael llawer o ddefnydd. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd yr Aelodau a'r staff yn parhau i werthfawrogi a defnyddio gwasanaethau Swyddfa'r Post ar y Llawr Gwaelod, sydd ar gael rhwng 10:30 a 13:30 o ddydd Mawrth i ddydd Iau yn ystod y tymor.

## 28.0 Mentrau cynaliadwyedd

*Gwobr Cynaliadwyedd y Sector Cyhoeddus*

**28.1** Ym mis Tachwedd, enillodd y Cynulliad wobr y Sefydliad mwyaf Cynaliadwy yn Sector Cyhoeddus y Llywodraeth yn seremoni Gwobrau blynyddol Cynaliadwyedd y Sector Cyhoeddus. Rhoddwyd y wobr i gydnabod "cyflawniad nodedig a phwysig" wrth gyfrannu at leihau allyriadau carbon y sector cyhoeddus. Rhai o'r uchafbwyntiau a gydnabyddir gan y dyfarniad yw bod y Cynulliad:

- hyd yn hyn, wedi sicrhau gostyngiad o 37% mewn allyriadau ynni ers 2008/09, yn erbyn targed o 40%;
- yn y broses o asesu dichonoldeb ymuno â rhwydwaith gwresogi arfaethedig ar gyfer ardal Caerdydd, gan ddefnyddio ynni o wastraff fel prif danwydd;

- ar fin uwchraddio'r System Rheoli Adeiladau bresennol, gan ddarparu rhagor o gyfleoedd i wneud y gorau o effeithlonrwydd ei offer a'i ddefnydd o ynni.
- wedi cynyddu ei gyfradd ailgylchu o 68% i 96% ers 2010/11; ac
- wedi cyflawni gostyngiad o 50% mewn allyriadau CO2e gwastraff yn yr un cyfnod.

**28.2** Mae'r Comisiwn wedi cymeradwyo trywydd lleihau ynni i ostwng allyriadau ynni gan 30% arall erbyn 2021 o'i gymharu â lefelau 2012/13.

# D. Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Ariannol

## 29.0 Sefyllfa Ariannol 2014-15

**29.1** Prif ddangosyddion perfformiad ariannol y Comisiwn yw tanwario 1% neu lai na'r Gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, i sicrhau £500,000 o arbedion Gwerth am Arian a thalu anfonebau a hawliadau treuliau o fewn deng niwrnod. Rydym yn parhau i fod ar y trywydd iawn ar gyfer pob un o'r dangosyddion hyn.

**29.2** Yn benodol, ar ddiwedd mis Rhagfyr 2014, mae'r Comisiwn yn rhagweld sefyllfa o danwariant o £200,000 (0.4%) ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm yr arbedion Gwerth am Arian a nodwyd ar ddiwedd mis Rhagfyr yw £542,000, ac mae prosesau caffael wedi sicrhau £61,000 neu 11% o arbedion. Yn ystod y chwarter diwethaf rydym wedi cymryd 3.6 diwrnod ar gyfartaledd i dalu anfonebau a cheisiadau am dreuliau.

**29.3** Mae gennym nifer o brosiectau yn cael eu rheoli ar draws y flwyddyn ariannol hon a'r nesaf. Mae yna, felly, risg y gallai newidiadau i raglenni gwaith prosiectau effeithio ar y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn ddiweddar, adolygodd y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau y cynlluniau ariannol wrth gefn i reoli'r risg hwn. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn fodlon bod y cynlluniau yn rhoi digon o hyblygrwydd i ymdopi â newidiadau posibl rhwng nawr a diwedd y flwyddyn.

**29.4** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd â'u harchwiliad interim ym mis Ionawr yn barod ar gyfer diwedd y flwyddyn.

**29.5** Bydd y Comisiwn yn gosod Cyllideb Atodol 2014-15 i gynyddu'r symiau ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) a'r incwm y gallwn ei gadw, fel bod y ddau yn unol â rhagolygon cyfredol.

## 30.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb

**30.1** Ym mis Hydref, bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar Gyllideb 2015-16 *Adeiladu ar Fuddsoddiad a Newid* cyn iddi gael ei thrafod a'i chymeradwyo gan y Cyfarfod Llawn ar 19 Tachwedd.

**30.2** Cyfanswm y gyllideb weithredol ar gyfer 2015-16 yw £50.9 miliwn, sy'n darparu 1% o doriad mewn termau real i'r Comisiwn o gymharu â Chyllideb 2014-15. Erbyn hyn, mae'r gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu'n fewnol yn hytrach na chan gontractwyr, ac yn 2015-16 daw effeithiau ariannol hynny i'r amlwg. Mae'r newid hwn wedi sicrhau bod y costau TGCh o fewn ein rheolaeth ni a bydd yn rhyddhau £800,000 i fuddsoddi mewn gwelliannau ac ychwanegiadau i wasanaethau TGCh.

**30.3** Bydd y rhaglen fuddsoddi arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn cynnwys:

- diweddaru'r seilwaith TGCh, yn enwedig wrth i ni fwrw ymlaen i atgyfnerthu'r gwasanaeth TGCh yn fewnol, yn ogystal ag ailddodrefnu'r Siambr;
- symud ymlaen â dyheadau'r Comisiwn i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog;
- gwaith cynaliadwyedd i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd;
- ymgysylltu tuag allan, gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc;
- gwella systemau rheoli gwybodaeth y Comisiwn; a
- pharhau i fuddsoddi yn ystâd y Cynulliad.

**30.4** Mae gwaith bellach wedi dechrau ar ddrafftio Strategaeth Cyllideb 2016-17 yn barod ar gyfer trafodaethau'r Comisiwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## 31.0 Caffael

**31.1** Mae gwaith y tîm caffael yn cefnogi'r Rhaglen Gwasanaethau TGCh yn y dyfodol wedi dod i ben. Fodd bynnag, maent yn parhau i weithio'n agos gyda TGCh i gefnogi dau brosiect pwysig - cynllun teleffoni newydd ac ail-dendro am y contract darlledu.

**31.2** Mae'r tîm wedi datblygu gweithdrefnau rheoli contract newydd ac mae'n cyflwyno'r rhain i'r holl staff sy'n rheoli contractau.

**31.3** Lle bynnag y mae hynny'n ymarferol, mae cyfleoedd contract yn parhau i gael eu hyrwyddo i fusnesau bach a chanolig lleol.  Ar hyn o bryd, mae 71% o'n contractau yn ôl nifer (sef gwerth dros £25,000) gyda busnesau bach a chanolig lleol.  Llwyddiant diweddar yn y maes hwn yw'r contract ar gyfer Peirianwyr Maes TGCh, a ddarparwyd yn flaenorol gan Atos. Dyfarnwyd hwn i Antur Teifi – busnes bach a chanolig o Gaerfyrddin.

*Mesurau perfformiad allweddol*

| Mesur | 2014-15 |
|---|---|
| Arbedion caffael | **£95,498** |


# E. Rhyddid Gwybodaeth

## 32.0 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y cyfnod Gorffennaf-Rhagfyr 2014

**32.1** Mae rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwyd ers yr adroddiad diwethaf o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'w gweld yn Atodiad E. Trefnwyd y rhestr yn ôl pwnc y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys manylion am y wybodaeth a gafodd ei dal yn ôl o ganlyniad i eithriadau Rhyddid Gwybodaeth, gwybodaeth a gafodd ei rhyddhau yn rhannol, a'r rhai lle nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw.

**32.2** Mae'r siart isod yn dangos y 21 cais yn ôl categori. Ni chymhwyswyd unrhyw eithriadau o ran amser a chostau.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl categori (mis Gorffennaf – mis Rhagfyr 2014)**



Atodiad A

Cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad

| | |
|---|---|
| **Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | Hyrwyddwyd yr ymchwiliad i Gyffuriau Penfeddwol Cyfreithlon gyda grwpiau ysgolion a cholegau, gan gynnwys ar-lein drwy wefan 'dygynulliad'. |
| **Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd** | Ymchwiliad Ailgylchu pan ymatebodd dros 2,783 o bobl ifanc i'n harolwg. |
| **Craffu ar Waith y Prif Weinidog** | Rhoddwyd y cyfle i bob grŵp o bobl ifanc a gyfarfu yn y cyfnod cyn y cyfarfod ym mis Hydref, awgrymu cwestiynau i'r Aelodau eu gofyn i'r Prif Weinidog yn ystod sesiwn graffu ar faterion cyfansoddiadol. |
| **Menter a Busnes** | Casglwyd tystiolaeth gan bobl ifanc i fwydo i mewn i ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Helpu Pobl Ifanc i gael Gwaith. Ymgysylltwyd â chyfanswm o 2,008 o bobl ifanc.<br><br>Rhoddwyd gwybod i grwpiau am yr ymchwiliad i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yng Nghymru |
| **Plant a Phobl Ifanc** | Hyrwyddo sut y gwnaeth pobl ifanc gyfrannu at yr ymchwiliad i Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, ar-lein Hyrwyddwyd yr adroddiad ar-lein.<br><br>Holiadur cwmpasu Cwricwlwm Asesu a Chymwysterau (1,087) |
| **Bil Aelod Preifat** | Arolwg y Bil Llythrennedd Ariannol a Chynhwysiant (623) |

Atodiad B

Digwyddiadau mawr eraill a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2014

| | |
|---|---|
| **Digwyddiadau i Groesawu Athletwyr Olympaidd a Pharalympaidd y Gymanwlad Gartref** | Digwyddiad cyhoeddus ar risiau'r Senedd gyda derbyniad preifat i ddilyn i longyfarch tîm Cymru ar ei lwyddiannau yn ystod Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow 2014. |
| **Digwyddiadau Refferendwm yr Alban** | Cynhadledd a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru ac a oedd yn amlinellu'r effaith y bydd digwyddiad Refferendwm yr Alban yn ei chael ar Gymru. |
| **Newid yr enw parth i .Cymru / .Wales** | Digwyddiad a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Nominet i lansio'r enw parth .Cymru / .Wales yn swyddogol. |
| **Rhaglen i goffau y Rhyfel Byd Cyntaf 11 Tachwedd** | Sul y Cofio 2014 oedd y cyntaf yng nghyfres flynyddol y Cynulliad o ddigwyddiadau i goffáu'r rhai a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn 2014 cynhaliodd y Cynulliad y digwyddiadau swyddogol canlynol i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf:<br><br>• Lansio'r rhaglen Cymru o Blaid Heddwch mewn cydweithrediad â CEWC Cymru.<br><br>• Digwyddiad ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain i goffáu'r rhai a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. |

| | |
|---|---|
| | • Dau funud o ddistawrwydd<br><br>• Dadl ar gyfer pobl ifanc yn Siambr Hywel.<br><br>• Darlith gan Bennaeth Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth. |

**Atodiad C**

**Cyfryngau Cymdeithasol mewn ffigurau**

| Llwyfan | Disgrifiad: |
|---|---|
| Cyfryngau Cymdeithasol | Y Tîm Allgymorth yw'r diweddaraf i lansio ar Twitter gan ddod â chyfanswm sianeli'r Cynulliad ar gyfryngau cymdeithasol i 57 ar draws 6 llwyfan. |
| YouTube | Mae 60,000 wedi ein gwylio ar YouTube ers 2009. Roedd 43% yn 2014. |
| Twitter Corfforaethol | Trydarwyd y 5555fed neges drydar ar @CynulliadCymru. Trydarwyd y neges gyntaf ym mis Ebrill 2009. |
| Ail-frandio cyfrifon Twitter | Mae cyfrifon Twitter pob maes Pwyllgor a Gwasanaethau bellach yn rhoi 'Senedd' yn gyntaf. |
| SeneddEnv | Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn treialu dadansoddeg datganoledig lle mae'r holl weithgarwch ystadegol misol yn cael ei gofnodi gan ddefnyddiwr y sianel. |
| Twitter | Creu cyfrif Twitter Bwrdd Taliadau Aelodau'r Cynulliad i lansio ymgynghoriad ar gyflog a budd-daliadau Aelodau'r Cynulliad. Y Tîm Allgymorth yn cael ei sianel bwrpasol gyntaf ar gyfryngau cymdeithasol sydd â chynnwys amrywiol fel delweddau, fideos a holiaduron. Trydarwyd ffaith gysylltiedig â Chymru a'r Rhyfel Byd |

| | |
|---|---|
| | Cyntaf bob dydd ym mis Tachwedd yn y cyfnod cyn Dydd y Cadoediad. |
| Twitter / Facebook / Blog | Y mwyaf erioed yn gweld y blog 'Pigion' oherwydd bod mwy o hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| Twitter / Facebook | #1000Plenary – i ddathlu'r milfed Cyfarfod Llawn hanesyddol yr wythnos ddiwethaf, cysylltwyd â'r holl Seneddau yn y DU, ynghyd â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill, i roi gwybod iddynt am y digwyddiad a'r hashnod #1000Plenary. Mewn llai na 24 awr, roedd yr hashnod wedi cyrraedd dros 405,000, gan ei gwneud yn ymgyrch ar-lein mwyaf llwyddiannus y Cynulliad mewn amser byr. |
| Storify | Mae Storify yn cael ei ddefnyddio yn ehangach ar draws y Cynulliad fel dull o roi gwybod i'r cyhoedd am y gwaith yr ydym yn ei wneud. Mae'n ffordd wych o gasglu gwybodaeth am ddarn penodol o waith y gellir ei hyrwyddo wedyn ar y cyfryngau cymdeithasol. |

AC(4)2014(6) Papur 4
Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn

Atodiad D

Digwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol

Mai – Rhagfyr 2014

| Dyddiad | Manylion |
|---|---|
| 20 Mai | Croesawodd y Llywydd Noel A. Kinsella, Llefarydd Senedd Canada. |
| 20 Mehefin | Bu'r Comisiynydd **Peter Black AC** yn cynrychioli'r Llywydd, a rhoddodd gyflwyniad ar waith y Cynulliad yng Ngweithgor CALRE ar e-ddemocratiaeth yn Seville. |
| 16-17 Awst | Ymwelodd y Llywydd ac Arweinwyr Pleidiau'r Cynulliad â Fflandrys i fod yn bresennol yn y gwasanaeth i Gysegru Cofeb Genedlaethol Newydd Cymru yng Nghefn Pilkem, Langemark lle gosododd y Llywydd dorch ar ran y Cynulliad. |
| 17-20 Medi | Arweiniodd y Llywydd ddirprwyaeth i Wlad yr Iâ a oedd yn cynnwys **Eluned Parrott AC** ac **Antoinette Sandbach** AC. Roedd yr ymweliad yn rhan o raglen y Llywydd *Clymblaid Menywod mewn Democratiaeth y Cynulliad* ac roedd yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd i ddysgu pam bod Gwlad yr Iâ yn dod yn uchel iawn yn gyson am ei gydraddoldeb rhywiol yn y senedd yn ogystal ag yn y gymdeithas yn ehangach. |
| 16-18 Hydref | Ymwelodd y Llywydd a Chomisiynwyr y Cynulliad â Fflandrys fel rhan o raglen goffáu swyddogol y Rhyfel Byd Cyntaf, a drefnwyd gan senedd Fflandrys. |
| 19-21 Hydref | Arweiniodd y Dirprwy Lywydd ddirprwyaeth drawsbleidiol i gynrychioli'r Cynulliad yn y 49 fed Cynhadledd Cyfarfod Llawn yn Ashford a Fflandrys. Yn ystod yr ymweliad â Fflandrys gosododd y Dirprwy Lywydd dorchau ar ran y Cynulliad ar Gofeb Cymru yn Langemark ac ym Mhorth Menin, Ypres. |
| 25 Hydref – 1 Tachwedd | Arweiniodd y Llywydd ddirprwyaeth, ynghyd â'r Comisiynwyr **Sandy Mewies AC**, **Rhodri Glyn Thomas AC, a Peter Black AC** ar ymweliad swyddogol cyntaf y Cynulliad â Chanada. Roedd yr ymweliad yn cynnwys cyfarfodydd yn Senedd Ffederal |

| | |
|---|---|
| | Ottawa, yn ogystal ag ymweliad â Chynulliad Deddfwriaethol New Brunswick. Mae copi terfynol o'r adroddiad wedi cael ei weld gan y Comisiynwyr ac mae ar gael yn ddwyieithog. |
| 27 Hydref | Croesawodd y Dirprwy Lywydd Arlywydd Iwerddon i'r Cynulliad yn ystod ei ymweliad deuddydd â Chymru, fel rhan o ddathliadau i nodi canmlwyddiant geni Dylan Thomas. |
| 5-8 Tachwedd | Bu'r Llywydd yng nghyfarfod Cynulliad Cyffredinol CALRE yn Santiago de Compostela (Sbaen). Yn ystod y cyfarfod ymrwymodd y Llywydd i sefydlu a chadeirio'r Gweithgor Cydraddoldeb Rhywiol yn 2015. |

*Ymweliadau diplomyddol*

Croesawodd y Llywyddion yr ymweliadau diplomyddol canlynol â'r Cynulliad hefyd.

- 8 Mai - Ei Ardderchowgrwydd Mr Ranjan Mathai, **Uchel Gomisiynydd India** i'r DU
- 14 Mai - Ei Ardderchowgrwydd Mr Diego Gomez-Pickering, **Llysgennad Mecsicanaidd** i'r DU
- 15 Mai - Ei Ardderchowgrwydd Mr Konstantinos Bikas**,** **Llysgennad Groeg*** i'r DU
- 20 Mehefin - Ei Ardderchogrwydd Aloun Ndombet-Assamba, **Uchel Gomisiynydd Jamaica** i'r DU
- 26 Mehefin - Ei Ardderchowgrwydd Dr Peter Ammon, **Llysgennad yr Almaen** i'r DU
- 16 Hydref – Ei Ardderchogrwydd Mr Pasquale Terracciano, **Llysgennad yr Eidal*** i'r DU
.
- 12 Tachwedd - Ei Ardderchowgrwydd Dr Ivan Grdešić, **Llysgennad Croatia** i'r DU

- 19 Tachwedd – Ei Ardderchowgrwydd Mr Peter Szabadhegy, **Llysgennad Hwngari** i'r DU

- 19 Tachwedd – Ei Ardderchowgrwydd Dr John Freeman **Llysgennad Prydain i'r Ariannin**

* Digwyddodd yr ymweliadau diplomyddol hyn fel rhan o raglenni ehangach a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda Chadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad i drafod blaenoriaethau eu gwledydd tra'u bod yn dal Llywyddiaeth Cyngor yr UE.

**AC(4)2014(6) Papur 4**
**Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn**

**Atodiad E**

**CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH**

Gorffennaf – Rhagfyr 2014

Cafwyd 21 o geisiadau am wybodaeth yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2014. Mae'r categorïau yn ymwneud â natur y cais.

## 1. Gwybodaeth a ryddhawyd yn dilyn ceisiadau rhyddid gwybodaeth



Comisiwn y Cynulliad

- Defnyddio posteri etholiadol yn Nhŷ Hywel a'r Senedd.
- Copi o'r cynllun gweithredu BME.
- Meicroffonau newydd yn y Siambr.

Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad

- Dadansoddiad o'r 30 gwefan mwyaf poblogaidd.

Ystadau/Cyfleusterau

- Protocol hedfan baner.

## 2. Gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl

Aelodau'r Cynulliad

- Cynnydd yng nghyflog Aelodau'r Cynulliad. **Dibynnwyd ar adran 36 (Ymdriniaeth effeithiol o ran materion cyhoeddus).**

Pwyllgorau a Deddfwriaeth

- Tystiolaeth a gyflwynwyd yn ymwneud â Gwesty'r River Lodge, Llangollen. **Dibynnwyd ar adran 36 (Ymdriniaeth effeithiol o ran materion cyhoeddus).**

**3. Rhyddhau gwybodaeth yn rhannol ond rhywfaint o wybodaeth heb ei chadw neu wedi'i dal yn ôl**

Pwyllgorau a Deddfwriaeth

- Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol **Dibynnwyd ar adran 22 (Cyhoeddiad yn y Dyfodol).**

Aelodau'r Cynulliad

- Ceir â gyrwyr swyddogol **Dibynnwyd ar adran 40 (gwybodaeth bersonol).**

Comisiwn y Cynulliad

- Gwybodaeth am y contract darlledu. **Dibynnwyd ar adran 43 (Buddiannau Masnachol).**

**4. Dim gwybodaeth wedi'i chadw**

Aelodau'r Cynulliad

- Cofnodion pleidleisio unigol. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw**
- Cofnod presenoldeb. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw**

**AC(4)2014(6) Papur 4**
**Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn**

Ystadau/Cyfleusterau

- Gweithdrefnau diogelwch wrth fynd i mewn i'r Senedd a Thŷ Hywel (a dderbyniwyd ddwywaith). **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw**

Pwyllgorau a Deddfwriaeth

- Chwiliadau Pridiannau Tir Lleol yng Nghymru. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw**
- Adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd o ofal iechyd. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw**
- Gwerth am Arian ar ddysgu a sgiliau. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw**
- Gwerth am Arian ar addysg cyfrwng Cymraeg (a dderbyniwyd 4 gwaith). **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Swyddfa'r UE

# Materion Ewropeaidd

Rhifyn 31 - Gaeaf 2014/2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:


Cyfathrebu'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: www.cynulliad.cymru
E-bost: Cysylltu@cynulliad.cymru
Ffôn: 0300 200 6565


Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.


© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyflwyniad



**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Y Llywydd**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno rhifyn 31 o'n cylchlythyr, Materion Ewrop, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd. Er gwaethaf y pwysau ar Bwyllgorau oherwydd nifer y deddfwriaethau ar eu hagendâu, mae'n braf gweld ymgysylltiad gweithredol ar draws y Cynulliad mewn materion sy'n gysylltiedig â'r UE.

Cynhaliodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ymchwiliad i gynigion yr UE ar Gynnyrch Organig, ymatebodd i'r cynigion i wahardd y defnydd o rwydi drifft, a chraffodd ar baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r PAC a diwygio pysgodfeydd. Y mis hwn, bydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn cynnal sesiwn graffu ar waith y Gweinidog o ran paratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd, a bydd yn gwneud gwaith dilynol o ran ei ymchwiliadau ar Horizon 2020 a Chyfleoedd Cyllido'r UE. Bydd y Pwyllgor yn trafod blaenoriaethau'r Llywydd Juncker yn y Comisiwn Ewropeaidd, â David Hughes, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru. . Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn parhau â'r gwaith o fonitro materion sybsidiaredd yr UE, ac roedd David Melding AC, cadeirydd y Pwyllgor yn bresennol yng nghyfarfod Fforwm y Comisiwn Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig o Gadeiryddion Deddfwrfeyddd Datganoledig/y DU a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr yn Senedd yr Alban. Bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ymweld â'r  Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ym Mharis i drafod canlyniadau PISA yng Nghymru, tra bu ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Sylweddau Seicoweithredol Newydd yn ystyried pa mor berthnasol yw deddfwriaeth drafft yr UE yn y maes hwn i Gymru.

Yn ystod yr hydref, cynhaliwyd nifer o ddadleuon yn y Cyfarfod Llawn ar faterion pwysig yn ymwneud â'r UE, gan gynnwys y trafodaethau masnach TTIP rhwng yr UE â'r Unol Daleithiau, a chwmpas ar gyfer cymorth cyllid yr UE ar gyfer gweithwyr yr effeithir arnynt gan gau purfa olew Murco yn Sir Benfro.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu ymweld â Brwsel yn ddiweddarach eleni ar gyfer cyfarfodydd pwysig gyda Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd, a bydd dirprwyaeth o swyddogion y Cynulliad yn ymweld â Brwsel yn ddiweddarach y mis hwn ar gyfer cael hyfforddiant ymwybyddiaeth, a drefnir ac a ariennir gan Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

Rydym wedi croesawu nifer o westeion nodedig i'r Cynulliad dros y misoedd diwethaf, yn enwedig Michael D Higgins, y Llywydd o Iwerddon, fel rhan o'i ymweliad â Chymru i ddathlu canmlwyddiant geni Dylan Thomas, yn ogystal â Llysgenhadon i'r DU o'r Eidal, Croatia a Hwngari. Rydym yn edrych ymlaen at ymweliad dirprwyaeth o Senedd Fiji, a arweinir gan y siaradwr Dr Jiko Luveni, a Llysgennad Latfia i'r DU, a fydd yn trafod Llywyddiaeth gyntaf ei wlad o'r UE gyda Chadeiryddion y pwyllgorau ar ddiwedd mis Chwefror.

Dymunaf flwyddyn gadarnhaol a chynhyrchiol i bawb yn 2015.

# Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

–Yn wyneb nifer y ddeddfwriaeth o Gymru y bydd y Pwyllgor yn treulio amser arni dros y 12 i 18 mis nesaf, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i fabwysiadu dull gweithredu newydd o ran ei waith yn Ewrop. Bydd yn olrhain, ac yn ceisio dylanwadu ar gynigion yr UE sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, drwy ymgynghori'n ysgrifenedig ac ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid. Dilynir unrhyw faterion a nodir ar gyfer Cymru, drwy gyfathrebu'n ysgrifenedig â sefydliadau'r UE a Llywodraeth Cymru. Mae rhai o feysydd allweddol yr UE sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor wedi'u nodi isod. Mae rhestr lawn ar gael ar wefan y Pwyllgor.

–**Ymchwiliad i gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig**: Mae'r ymchwiliad hwn yn ymwneud ag effeithiau posibl cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer rheoleiddio'r trefniadau o ran cynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig ar Gymru a'r cynigion a gyhoeddwyd yn 2014. Mae'r ymchwiliad yn: ystyried effeithiau posibl y cynigion ar y sector organig yng Nghymru; ystyried yr argymhellion ar gyfer y newidiadau i'r cynigion cyfreithiol a gyhoeddwyd; gweithredu fel fforwm ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru i gymryd rhan yn y drafodaeth ar ddyfodol cynhyrchu organig yn yr UE. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth lafar ar 13 Tachwedd, ac mae wedi ysgrifennu at y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop yn amlinellu ei gynigion allweddol ar gyfer newidiadau i destun y rheoliad drafft.

–**Polisi morol a physgodfeydd**: Mae'r Pwyllgor wedi parhau i adolygu polisi morol a physgodfeydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darparu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yng Nghymru. Cynhelir sesiynau dilynol pellach ar ddechrau 2015.

–**Tyfu cnydau GMO**: Yn dilyn cytundeb Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ar safbwynt negodi ynghylch cynigion i ddiwygio'r broses awdurdodi ar gyfer tyfu cnydau GMO, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau briffio ffeithiol gyda Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cynnwys y diwygiadau arfaethedig. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu parhau i fonitro ac olrhain y trafodaethau ar y cynnig hwn.

– **Gwahardd rhwydi drifft**: Ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi rheoliad i atal y gwaharddiad ar rwydi drifft, ysgrifennodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at Lywodraeth Cymru i egluro ei ymateb i'r cynigion. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid o Gymru ynghylch eu barn ar y cynigion a'r argymhellion ar gyfer newidiadau, a bydd yn ysgrifennu at y sefydliadau Ewropeaidd ar sail y dystiolaeth y mae'n ei chasglu.

## Y Pwyllgor Menter a Busnes

–**Ymchwiliad i'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi**: Mae'r ymchwiliad hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo allforion gan fusnesau yng Nghymru a hwyluso buddsoddiad uniongyrchol o dramor, gan gynnwys gwaith trawslywodraethol o fewn y DU. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref a thrafodwyd ef yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Rhagfyr. Cytunodd y Gweinidog i ailystyried ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar fasnach a mewnfuddsoddi yn dilyn y ddadl y Cyfarfod Llawn. Yn benodol, cytunodd y Gweinidog i edrych eto a oes rhagor o wybodaeth ar gael am ba mor effeithiol yw cefnogaeth Llywodraeth Cymru i allforwyr. Cytunodd y Gweinidog hefyd i adnewyddu'r manylion am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran masnachu a mewnfuddsoddi sydd yn y ddogfen bolisi bresennol, 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd', a gyhoeddwyd yn 2010.

–**Ymchwiliadau i (i) Gyfleoedd cyflogaeth i bobl hŷn; (ii) Helpu Pobl Ifanc i gael Gwaith; (iii) Ymchwiliad i Dwristiaeth**: Er bod prif ganolbwynt y tri ymchwiliad yma yn cynnwys camau gweithredu yng Nghymru a'r DU, mae pob ymchwiliad yn cynnwys yr angen i ystyried effaith a gwerth am arian cyllid Ewropeaidd. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar Dwristiaeth ym mis Tachwedd, a chaiff ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Ionawr. Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn dystiolaeth bellach gyda'r Gweinidog ym mis Ionawr.

–**Sesiwn graffu'r UE**: Bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 21 Ionawr, a fydd yn canolbwyntio ar baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd ar gyfer 2014-2020, ac yn dilyn ymchwiliadau'r Pwyllgor i Horizon 2020 a Chyfleoedd Cyllido'r UE rhwng 2014 a 2020. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnal sesiwn ddiweddaru gyda David Hughes, Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, a Swyddfa'r UE yn y Cynulliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2015, a blaenoriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd newydd.

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

–**Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel**: Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth yn ystod yr hydref 2013, ac aeth ymlaen i wneud gwaith sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd ymgysylltiad rhieni yn 2014. Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth bellach gyda'r Gweinidog ym mis Rhagfyr 2014, i gloi'r ymchwiliad.

–**Ymweliad â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd**: Ymwelodd Ann Jones AC, cadeirydd y Pwyllgor, ac aelodau eraill â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ym Mharis ym mis Medi, i drafod y canlyniadau PISA Cymru, adolygiad y Sefydliad ar y system addysg yng Nghymru, Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ac addysg ariannol. Mae'r ymweliad wedi llywio gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gynllun Gwella Addysg newydd Llywodraeth Cymru, *Cymwys am Oes*.

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

–**Adroddiad ar Sybsidiaredd**: Bydd yr adroddiad monitro ar faterion sybsidiaredd sy'n berthnasol i Gymru sy'n deillio o gynigion deddfwriaethol drafft yr UE, ar gyfer y cyfnod o fis Mai i fis Rhagfyr 2014, yn cael ei ystyried yn ystod tymor y gwanwyn.

–**Fforwm y Comisiwn Ewropeaidd a'r DU**: Aeth David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Dirprwy Lywydd, i gyfarfod diweddaraf Cadeiryddion Pwyllgorau'r UE (neu gyfwerth) yn y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig, a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr yn Senedd yr Alban.

–**Rhwydi drifft**: Ym mis Tachwedd, nododd y Pwyllgor gynnig ar gyfer deddfwriaeth yr UE ar Bysgota Rhwydi Drifft fel mater o gymesuredd, ac yn dilyn hynny ysgrifennodd at Gomisiynydd yr UE a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd yn Nhŷ'r Cyffredin. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y mater hwn Gomisiynydd yr UE.

–**Adolygiad Llywodraeth y DU o Gydbwysedd Cymwyseddau**: Ym mis Mehefin 2014 ymatebodd y Pwyllgor i Adolygiad Llywodraeth y DU o'r Cydbwysedd Chymwyseddau ar sybsidiaredd a chymesuredd.

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

–**Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"):** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth a chymerodd ran mewn gweithgarwch ymgysylltu yn ystod yr hydref a'r gaeaf 2014. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Ymchwiliad hwn yn cynnwys ystyried tystiolaeth ryngwladol ar ddulliau gweithredu o ran Sylweddau Seicoweithredol Newydd (NPS) mewn gwledydd eraill. Cafodd y Pwyllgor wybodaeth fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi paratoi deddfwriaeth ddrafft a fyddai'n rheoleiddio sylweddau

seicoweithredol newydd ar lefel yr UE (yn ychwanegol at reoliad cyfyngedig presennol yr UE). Mae'r dull gweithredu newydd hwn gan yr UE wedi'i gwestiynu gan Lywodraeth y DU. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan swyddogion y Swyddfa Gartref yn ystod mis Ionawr 2015.

– **Ymchwiliad i'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru:** Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ym mis Hydref 2014. Yn ystod yr ymchwiliad, codwyd pryderon am oblygiadau Rheoliadau Diogelu Data drafft yr UE, yn benodol y diwygiadau y cytunwyd arnynt i Erthygl 81 ac Erthygl 83, ar y defnydd o ddata i gefnogi darpariaeth gwasanaethau'r GIG, ac iechyd ac ymchwil wyddonol yng Nghymru. Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i'w annog i sicrhau y ceir cydbwysedd addas rhwng parchu preifatrwydd unigolion ac amddiffyn ymchwil, yn y trafodaethau ar y cynigion ar lefel yr UE.

## Busnes y Cyfarfod Llawn gyda sesiynau penodol ar faterion Ewropeaidd

– 11 Tachwedd: rhoddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020, a chafwyd trafodaeth i ddilyn.

– 3 Rhagfyr: nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan y Pwyllgor Menter a Busnes yn dilyn ei ymchwiliad i ddulliau gweithredu Llywodraeth Cymru o ran Hyrwyddo Masnach a Mewnfuddsoddi.

– 3 Rhagfyr: bu'r Cynulliad yn cynnal dadl ar y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Drawsatlantig arfaethedig.

– 10 Rhagfyr: nododd y Cynulliad yr adroddiad a luniwyd yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cynnydd a wnaed hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru.

– 10 Rhagfyr: dadl fer ar Ddiogelu dyfodol Ffermio yng Nghymru - Beth y gall Cymru ei ddysgu gan ei phartneriaid yn yr UE i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o ffermwyr yn gallu cael mynediad i dir, adeiladu eu busnesau, a gwneud y gorau o fanteision cronfeydd datblygu Ewropeaidd.

*Er gwybodaeth: yn ogystal â'r uchod, mae materion Ewropeaidd yn codi'n aml yn natganiadau'r Gweinidogion ac mewn cwestiynau i Weinidogion.*

## Gweithgareddau allanol Aelodau ar fusnes y Cynulliad

- 3 Hydref: Roedd Rhodri Glyn Thomas AC ym Mrwsel ar gyfer un o gyfarfodydd Comisiwn Adnoddau Naturiol Pwyllgor y Rhanbarthau.
- 7-8 Hydref: Roedd Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC yn bresennol yng Nghyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- 9 Hydref: Bu Rhodri Glyn Thomas AC yn cadeirio sesiwn banel (a oedd yn cynnwys siaradwyr o Fanc Buddsoddi Ewrop) ar offerynnau ariannol yn yr UE ar gyfer 2014-2020, ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel yn ystod Diwrnodau Agored Wythnos y Dinasoedd a'r Rhanbarthau 2014.
- 16-17 Hydref: Bu'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC, yn cymryd rhan mewn digwyddiad i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf yng ngorllewin Fflandrys a drefnwyd gan Senedd Fflandrys.
- 19-21 Hydref: Arweiniodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, ddirprwyaeth o Aelodau'r Cynulliad yn ystod 49ain Cyfarfod Llawn Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon, a gynhaliwyd yn Ashford, Caint, ac yn Ypres Salient, Fflandrys, i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf.
- 27-31 Hydref: Arweiniodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, ddirprwyaeth o Gomisiynwyr y Cynulliad ar ymweliad cyntaf y Cynulliad â Chanada. Roedd yr ymweliad yn cynnwys ymweliadau swyddogol â'r Senedd Ffederal yn Ottawa, ac â Chynulliad Deddfwriaethol New Brunswick yn Fredericton.
- 5-8 Tachwedd: Roedd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd yn bresennol yng nghyfarfod Cynulliad Cyffredinol CALRE a gynhaliwyd yn Senedd Galicia yn Santiago de Compostela (Sbaen).
- 20 Tachwedd: Siaradodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd a'r Arglwydd Tim Boswell, Cadeirydd Pwyllgor Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi mewn cynhadledd ar rôl Seneddau Cenedlaethol yn yr UE, a drefnwyd gan Ganolfan Dogfennau Ewropeaidd Prifysgol Caerdydd.
- 27 Tachwedd: Bu Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC, cynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau, yn cadeirio sesiynau gweithdy mewn cynhadledd yr UE ar gyflogaeth pobl ifanc, a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.
- 19 Ionawr: Bu Lindsay Whittle AC yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfod y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig ar Faterion Economaidd, a fu'n trafod ei ymchwiliad presennol i 'Ddiweithdra ymhlith Pobl Ifanc' yn Belffast.
- 6-8 Chwefror: Bydd Joyce Watson AC, cadeirydd Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (y CPA) yn y Cynulliad, yn arwain dirprwyaeth fechan a fydd yn mynd i ail gyfarfod Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad Rhanbarthol, a gaiff ei gynnal gan Senedd Gibraltar.
- 11-13 Chwefror: Bydd Mick Antoniw AC yn bresennol yng nghyfarfod llawn cyntaf mandad newydd Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- 22-24 Chwefror: Bydd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd yn arwain dirprwyaeth o Aelodau'r Cynulliad yn ystod 50fed Cyfarfod Llawn y Cynulliad Seneddol Prydeinig Gwyddelig, a gaiff ei gynnal yn Nulyn.

## Ymweliadau rhyngwladol ac ymweliadau gan bwysigion eraill â'r Senedd

– 16 Hydref: Bu Llysgennad yr Eidal, Ei Ardderchowgrwydd Pasquale Q Terracciano, yn ymweld â'r Cynulliad i roi tystiolaeth i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad am flaenoriaethau'r Eidal yn ystod llywyddiaeth y wlad o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd.

– 27 Hydref: Cyfarfu David Melding AC, y Dirprwy Lywydd â Michael D Higgins, y Llywydd o Iwerddon fel rhan o'i ymweliad ef â Chymru i ddathlu canmlwyddiant geni Dylan Thomas.

– 12 Tachwedd: Cyfarfu'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, â'r Ardderchowgrwydd Dr Ivan Grdešić, Llysgennad Croatia.

– 19 Tachwedd: Cyfarfu'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, â'r Ardderchowgrwydd Mr Peter Szabadhegy, Llysgennad Hwngari.

– 19 Tachwedd: Cyfarfu'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, â Dr John Freeman, Llysgennad Prydain i'r Ariannin.

– 2-3 Chwefror: Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu ymweliad swyddogol gan Senedd Fiji, dan arweiniad y Llefarydd, Dr Jiko Luveni.

– 26 Chwefror: Bydd Ei Ardderchowgrwydd Mr Andris Teikmanis, Llysgennad Latfia, yn ymweld â'r Cynulliad, lle bydd yn cwrdd â'r Llywydd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad i drafod blaenoriaethau Latfia yn ystod ei chwe mis wrth y llyw yng Nghyngor yr UE.

## Lincs

–**Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

–**Hysbysiad Busnes y Cynulliad**

–**Tudalennau'r pwyllgorau**

–**Tudalennau'r Gwasanaeth Ymchwil**

–**Blog y Gwasanaeth Ymchwil: Pigion**

## I gael rhagor o wybodaeth

## Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE (**Gregg.Jones@Cynulliad.Cymru**)

**National Assembly for Wales EU Office**
**Wales House**
**6th Floor**
**Rond Point Schuman 11**
**1040 Brussels**
**Belgium**

Ffôn **0032 2 226 66 92**
Symudol **0044 781 616 4455**
**Dilynwch ni ar Twitter: @SeneddEurope**

**Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel (Pedwerydd llawr)**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd CF99 1NA**

**0044 (0)300 200 6255 / 6256**
**TimRhyngwladol@Cynulliad.Cymru**

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.**
Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb ichi. Os nad ydych am dderbyn copïau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, neu os nad ydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn yn uniongyrchol ac yr hoffech ychwanegu eich enw at y rhestr bostio, cysylltwch â Gregg Jones drwy e-bost.

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon